

## Cais am Fân Amrywiad i Drwydded Safle neu Dystysgrif Safle Clwb o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

Cyn llenwi'r ffurflen a atodwyd fe'ch cynghorir i ddarllen y nodiadau esboniadol (1-8) ar dudalennau 7 ac 8 o'r ffurflen gais, er mwyn sicrhau bod y cais yn unol â'r meini prawf a restrwyd.

Yn ogystal, cyn llenwi'r ffurflen hon, darllenwch Bolisi Trwyddedu y Cyngor, y dogfennau esboniadol a gyhoeddwyd o dan Adran 182 o'r Ddeddf Trwyddedu gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (ar y wefan [www.culture.gov.uk](http://www.culture.gov.uk)).

Os ydych yn llenwi'r ffurflen amgaeedig â llawysgrifen, a fyddech cystal ag ysgrifennu'n glir gan ddefnyddio **prif lythrennau'n unig**. Ym mhob achos gofawch fod eich atebion o fewn llinellau'r blychau ac wedi'u hysgrifennu mewn **inc du**. Defnyddiwch daflenni ychwanegol os bydd angen. Mae'n bosibl y dymunwch gadw copi o'r ffurflen wedi'i chwblhau er gwybodaeth.

**Awgrymir yn gryf** fod ymgeiswyr yn ymgynghori â'r Awdurdod Trwyddedu, yr Awdurdodau sydd â Chyfrifoldeb (gweler Atodiad B, Polisi Trwyddedu y Cyngor), busnesau a thirgolion lleol wrth lunio'u hamserlenni gweithredu. Cred yr Awdurdod Trwyddedu yn gryf y bydd hyn yn cynorthwyo ymgeiswyr i glustnodi problemau posib fel y gellir ymdrin â hwy cyn eu bod yn digwydd, a lliniaru ofnau y cyfryw fusnesau a thirgolion o ran effaith y trefniadau trwyddedu newydd.

**Hysbysebu ceisiadau** (gweler yr enghraifft a atodwyd)

### **Hysbysiad Cyhoeddus**

Mae'n rhaid i'r sawl sy'n cyflwyno'r cais hysybsebu'r cais am ddeng niwrnod gwaith, gan ddechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl dyddiad cyflwyno'r cais i'r awdurdod trwyddedu ac yn gorffen ar ddiwedd y nawfed diwrnod gwaith yn olynol ar ôl y diwrnod hwnnw.

- (a) trwy arddangos hysbysiad sy'n cydymffurfio â pharagraff (2) mewn lle amlwg ar y safle y mae'r cais yn ymwneud ag ef fel y gellir ei ddarllen yn gyfleus o'r tu allan i'r safle, a
- (b) os oes unrhyw ran o berimedr allanol y safle sy'n gan metr o hyd neu'n hirach ac yn ffinio â phriffordd neu unrhyw le arall sydd ar agor i'r cyhoedd, trwy arddangos y cyfryw hysbysiad bob hanner can metr (o leiaf) ar hyd y rhan honno o'r perimedr.

Mae'n rhaid i'r hysbysiad gydymffurfio â gofynion rheol 26A.

(a) y mae'n –

- (i) un gwyn,
- (ii) un maint A4 neu fwy,
- (iii) wedi'i argraffu'n glir mewn inc du neu wedi'i deipio mewn inc du

(b) y mae'n cynnwys y wybodaeth ganlynol -

- (i) yn achos cais o dan adran 41A, yn dwyn y pennawd 'Deddf Trwyddedu 2003: Mân Amrywiadau i Drwydded Safle' ar frig yr hysbysiad neu'n agos at frig yr hysbysiad,
  - (ii) yn achos cais o dan adran 86A, yn dwyn y pennawd 'Deddf Trwyddedu 2003: Mân Amrywiadau i Dystysgrif Safle Clwb', ar frig yr hysbysiad neu'n agos at frig yr hysbysiad',
  - (iii) disgrifiad byr o'r amrywiad neu'r amrywiadau arfaethedig,
  - (iv) enw'r ymgeisydd neu'r clwb,
  - (v) cyfeiriad post y safle neu safle'r clwb, os oes un, neu os nad oes gan y safle gyfeiriad post, disgrifiad digonol o'r safle fel y gellir adnabod lleoliad a graddau'r safle neu safle'r clwb,
  - (vi) y cyfeiriad post a, lle bo hynny'n berthnasol, y cyfeiriad ar y we fyd-eang lle cedwir cofrestr yr awdurdod trwyddedu perthnasol a lle a phryd y gellir gweld y cofnod o'r cais,
  - (vii) y dyddiad pryd y caiff unrhyw rai sydd â diddordeb gyflwyno sylwadau i'r awdurdod trwyddedu perthnasol,
  - (viii) bod gwneud datganiad anwir mewn perthynas â chais, yn ymwybodol neu'n fyrbwyll, yn drosedd ac uchafswm y ddirwy a gaiff y sawl sy'n derbyn collfarn ddiannod;
- (c) bod y wybodaeth y cyfeirir ati yn is-baragraff b(i) neu (ii) uchod wedi'i hargraffu neu'i theipio a maint y llythrennau yn 32 neu'n fwy;
- (d) bod gweddill yr hysbysiad wedi'i argraffu neu'i depio a maint y llythrennau yn 16 neu'n fwy.

\*Amgaeir Hysbysiad Cyhoeddus enghreifftiol.

## Cynlluniau

Mae'n rhaid cyflwyno cynllun o'r safle i gyd-fynd â'r ffurflen gais a fydd yn cydymffurfio â'r canlynol: -

**1. Mae'n rhaid i'r cynllun ddefnyddio graddfa safonol, lle bydd 1mm yn cynrychioli 100mm, oni bai bod yr awdurdod trwyddedu perthnasol wedi rhoi cadarnhad yn ysgrifenedig ac yn flaenrol ar gais yr ymgeisydd fod cynllun wrth raddfa wahanol yn dderbyniol. Yn yr achosion hyn bydd yn rhaid darparu cynllun sy'n cydymffurfio â'r raddfa wahanol honno.**

Mae'n rhaid i'r cynllun ddangos -

- (a) graddau terfyn yr adeilad, os yw hynny'n berthnasol, a holl waliau mewnol ac allanol yr adeilad a pherimedr y safle, os yw hynny'n wahanol;
- (b) lleoliad mynedfeydd ac allanfeydd y safle;
- (c) lleoliad y llwybrau dianc o'r safle os ydynt yn wahanol i baragraff (b);
- (d) os bydd safle'n cael ei ddefnyddio ar gyfer mwy nag un gweithgaredd trwyddedadwy, y rhan o'r safle a ddefnyddir ar gyfer pob gweithgaredd;
- (e) os yw'r gweithgaredd trwyddedadwy yn ymwneud â chyflenwi alcohol, y lleoliad neu'r lleoliadau ar y safle a ddefnyddir ar gyfer yfed alcohol;

- (f) strwythurau gosod (gan gynnwys celfi) neu eitemau tebyg a gedwir dros dro mewn lleoliad penodedig (ac eithrio celfi) a all effeithio ar allu unigolion ar y safle i ddefnyddio allanfeydd neu lwybrau dianc yn ddirwystr;
  - (g) os yw'r safle'n cynnwys llwyfan neu fan uchel, lleoliad ac uchder pob llwyfan neu fan o'u cymharu â'r llawr;
  - (h) os yw'r safle'n cynnwys stepiau, grisiau, lifftiau neu risiau symudol, lleoliad y stepiau, grisiau, lifftiau neu risiau symudol;
  - (i) os yw'r safle'n cynnwys ystafell neu ystafelloedd sy'n cynnwys cyfleusterau cyhoeddus, lleoliad yr ystafell neu'r ystafelloedd;
  - (j) y mathau o offer diogelwch rhag tân ac unrhyw offer diogelwch arall a'u lleoliad; a
  - (k) lleoliad y gegin ar y safle, os oes un.
2. Gellir defnyddio symbolau ar y cynllun i ddarlunio'r materion a nodir neu y cyfeirir atynt uchod a chynnwys allwedd i egluro'r rhain.

## **Ffi Gwneud Cais**

£89 y cais yw'r ffi.

Dylai pob siec fod yn daladwy i "Cyngor Sir Caerfyrddin.

## **Manylion cyswllt**

Yr Adain Drwyddedu  
Is-adran Diogelu'r Cyhoedd  
Cyngor Sir Caerfyrddin  
3 Heol Spilman  
Caerfyrddin  
Sir Gaerfyrddin  
SA31 1LE  
Rhif ffôn 0845 6580445  
e-bost: [diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk](mailto:diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk)  
Rhif ffacs 01267 229141

**Mae dyletswydd arnom, fel corff cyhoeddus, i ddiogelu'r cyllid cyhoeddus a weinyddir gennym ac i'r diben hwn mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd ar y ffurflen hon i atal a darganfod twyll. Gallwn hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus at y dibenion hyn.**

**I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar wefan y Cyngor neu cysylltwch â'r adran hon.**

# Hysbysiad Cyhoeddus

## Deddf Trwyddedu 2003: Mân

### Amrywiad i Drwydded Safle neu i

### Dystysgrif Safle Clwb

Yr wyf/yr ydym ni  
yn hysbysu drwy hyn fy mod/ein bod wedi cyflwyno cais i Gyngor Sir  
Caerfyrddin am fân amrywiad i'r (2) Drwydded Safle / i'r Dystysgrif  
Safle Clwb yn:  
(3)

Ac a elwir yn (4)

Diben y cais fydd:- (5)

Dylai'r sawl sydd am gyflwyno sylwadau ynghylch y cais hwn wneud  
hynny yn ysgrifenedig i'r Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy  
Diogel, Cyngor Sir Caerfyrddin, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin,  
SA31 1LE neu drwy anfon neges e-bost at  
[diogelu'rcyhoedd@sirgar.gov.uk](mailto:diogelu'rcyhoedd@sirgar.gov.uk)

Nid hwyrach na (6) .....

Ni ellir ystyried unrhyw sylwadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Gellir gweld copi o'r cais yn swyddfa'r cyngor yn y man a enwir  
uchod ar y diwrnodau a'r amserau canlynol:

Dydd Llun – Dydd Iau: 8:45am – 5:00pm; Dydd Gwener 08:45 - 4:30pm.

Mae'n drosedd gwneud datganiad anwir mewn perthynas â chais, yn  
ymwybodol neu'n fyrbwyll, a gellir rhoi dirwy o hyd at £5,000 i'r sawl  
sy'n derbyn collfarn ddiannod am y drosedd.

Llofnodwyd: .....

Ymgeisydd / ar ran yr ymgeisydd

Dyddiedig: .....

- (1) nodwch enw'r ymgeisydd (deiliad y Drwydded Safle neu'r Dystysgrif Safle Clwb fel arfer)
- (2) Dileer fel y bo'n briodol
- (3) Nodwch gyfeiriad post y safle
- (4) Nodwch enw'r safle
- (5) Rhowch ddisgrifiad byr o'r amrywiad arfaethedig
- (6) Nodwch y dyddiad ymhen 10 niwrnod gwaith gan ddechrau y diwrnod ar ôl rhoi'r cais i'r awdurdod lleol